

Trin meigryn rheolaidd drwy gau fforamen hirgrwn amlwg gan ddefnyddio dyfais a osodir drwy'r werddyr

*Mae arweiniad
Techlechydd NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ar pryd a sut y
gellir defnyddio
triniaethau
llawfeddygol
newydd mewn arfer
clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir cau fforamen hirgrwn amlwg gan ddefnyddio dyfais a osodir drwy'r werddyr yn y GIG i drin pobl sydd â meigryn rheolaidd. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechydd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n darparu gwerth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn am nad oes llawer o wybodaeth hyd yn hyn am ba mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio meigryn rheolaidd na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chynghor i chi am y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 7.

Efallai nad hon yw'r unig driniaeth bosibl ar gyfer meigryn rheolaidd. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.

Beth y mae NICE wedi'i ddweud?

Prin yw'r dystiolaeth gadarn sy'n dangos pa mor dda mae'r driniaeth hon yn gweithio. Dengys y dystiolaeth ar ddiogelwch fod risg fach o gymhlethdodau difrifol, gan gynnwys y ddyfais yn symud a allai ymuno â'r cylchrediad. Os yw meddyg am gau fforamen hirgrwn amlwg gan ddefnyddio dyfais a osodir drwy'r werddyr i drin meigryn rheolaidd, dylai sicrhau ei fod yn cymryd camau ychwanegol i egluro'r ansicrwydd ynglŷn â pha mor dda y mae'n gweithio, ynghyd â risgiau posibl y driniaeth, gan gynnwys y posibilrwydd o gymhlethdodau difrifol. Dylai hyn ddigwydd cyn i'r claf gytuno (neu beidio â chytuno) i gael y driniaeth. Dylid rhoi'r daflen hon a gwybodaeth ysgrifenedig arall i'r claf fel rhan o'r drafodaeth. Dylid hefyd roi trefniadau arbennig ar waith ar gyfer monitro'r hyn sy'n digwydd i'r claf ar ôl y driniaeth.

Dylai tîm o weithwyr gofal iechyd proffesiynol gan gynnwys niwrolegydd neu arbenigwr cur pen arall a chardiolegydd ymyriadol benderfynu pa gleifion ddylai gael y driniaeth hon. Dim ond i gleifion sy'n cael eu heffeithio'n ddifrifol gan feigryn rheolaidd nad yw wedi ymateb i driniaethau eraill y dylid ei gynniig.

Dim ond cardiolegydd a thîm cynorthwyol sydd wedi'u hyfforddi'n benodol yn y driniaeth ddylai gyflawni'r driniaeth, a hynny mewn unedau â mynediad i lawdriniaeth frys ar y galon rhag ofn y ceir cymhlethdodau.

Mae NICE wedi annog gwaith ymchwil pellach ar y driniaeth hon ac efallai y bydd yn ei hadolygu os bydd rhagor o dystiolaeth ar gael.

Trin meigryn rheolaidd drwy gau fforamen hirgrwn amlwg gan ddefnyddio dyfais a osodir drwy'r werddyr

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw 'cau fforamen hirgrwn amlwg drwy'r croen ar gyfer meigryn rheolaidd'.

Gwybodaeth am arweiniad Techlechydd NICE 242

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr cur pen a chardiolegydd i gael disgrifiad llawn.

Cur pen difrifol yw meigryn a ddaw yn aml â symptomau eraill megis sensitifrwydd i olau ac fel arfer caiff ei drin gan feddyginiaeth.

Twll bach yw'r fforamen hirgrwn rhwng dwy siambr uchaf y galon sy'n bresennol yn ystod datblygiad yn y groth. Fel arfer bydd yn cau ar ôl geni ond mewn rhai pobl mae'n parhau ar agor (amlwg). Fel arfer nid yw hyn yn achosi unrhyw symptomau, ond gallai profion ddangos fod y gwaed yn symud yn annormal rhwng siambrau'r galon sydd fel arfer ar wahân. Canfuwyd y gallai cau'r twll helpu i drin meigryn rheolaidd, er nad yw'n hysbys pam.

Cynhelir y driniaeth naill ai drwy ddefnyddio anesthetig lleol a chyffur tawelu, neu anesthetig cyffredinol. Caiff gwifren lywio a chathetr eu gosod drwy wythïen yn y werddyr i mewn i'r galon a thrwy'r fforamen hirgrwn amlwg gan ddefnyddio dyfais ddelweddu. Yna caiff dyfais ei gosod drwy'r cathetr, i gau'r twll.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi penderfynu bod ansicrwydd ynghylch pa mor dda mae'r driniaeth hon yn gweithio, ac mae risg fach o gymhlethdodau difrifol. Nid yw hyn yn golygu na ddylid cyflawni'r driniaeth, ond dylai eich meddyg egluro beth mae'r driniaeth yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl gyda chi. Dim ond ar ôl i'r drafodaeth hon gael ei chynnal y dylid gofyn i chi a ydych am gytuno i gael y driniaeth hon. Dylech gael gwybodaeth ysgrifenedig, gan gynnwys y daflen hon, a'r cyfle i drafod y driniaeth gyda'ch meddyg cyn i chi wneud penderfyniad. Mae NICE wedi penderfynu hefyd bod angen mwy o wybodaeth am y driniaeth hon. Efallai y bydd eich meddyg yn gofyn i chi a ellir defnyddio manylion am eich triniaeth i helpu i gasglu rhagor o wybodaeth am y driniaeth hon. Bydd eich meddyg yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am hyn.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal fydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis
cael y driniaeth
hon, cael triniaeth
wahanol, neu
beidio â chael
triniaeth
o gwbl.*

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Ceir disgrifiad bras isod o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar 14 o astudiaethau o'r driniaeth hon. Edrychodd rhai o'r astudiaethau ar gleifion a gafodd y driniaeth am resymau heblaw am feigrnau rheolaidd.

Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Mewn pum astudiaeth yn cynnwys cyfanswm o 1283 o gleifion a gafodd y driniaeth am nifer o wahanol gyflyrau, caewyd y fforamen hirgrwn amlwg ar unwaith mewn 1268 o gleifion (99%).

Mewn astudiaeth o 147 o gleifion, nododd 3 allan o 74 a gafodd y driniaeth a 3 allan o 73 a gafodd driniaeth ffug nad oeddent wedi cael unrhyw feigrnau pellach yn y chwe mis ar ôl y driniaeth. Nododd yr astudiaeth hefyd nad oedd unrhyw wahaniaeth rhwng y ddau grŵp o gleifion o ran difrifoldeb neu amledd y meigrnau neu nifer y dyddiau roeddent wedi eu cael yn y chwe mis ar ôl y llawdriniaeth.

Mewn astudiaeth o 86 o gleifion a gafodd eu trin naill ai gan y driniaeth neu feddyginiaeth, roedd pob un wedi profi lleihad yn nifrifoldeb y meigrnau ddwy flynedd a hanner ar ôl y llawdriniaeth.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr mai dangosyddion allweddol llwyddiant yw cau'r fforamen hirgrwn amlwg yn llwyr, ac amledd a difrifoldeb y meigrnau.

Risgiau a phroblemau posibl

Mewn astudiaeth o 280 o gleifion, cafodd dau glaf groniad o waed o amgylch y galon a ymyrodd â'i bwmpio (calon-gyfyngiad) ac roedd angen llawdriniaeth bellach ar y ddau.

Gwybodaeth am arweiniad Techlechydd NICE 242

Achosodd y ddyfais a ddefnyddiwyd i gau'r fforamen hirgrwn amlwg rwyg mewn pibell waed fawr yn y galon a bu angen llawdriniaeth frys ar un claf. Cwmpodd y ddyfais allan ac ymunodd â'r cylchrediad mewn saith allan o gyfanswm o 992 o gleifion mewn dwy astudiaeth (tynnwyd y ddyfais o un claf yn un o'r astudiaethau hyn, ond ni roddwyd manylion pellach ar gyfer yr ail glaf).

Nodwyd y cafodd 13 allan o 95 o gleifion rhythm calon annormal yn ystod neu ar ôl llawdriniaeth mewn dwy astudiaeth a chyfanswm o 213 o gleifion.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd a ddywedodd mewn egwyddor, y gellir cael problem â falfiau'r galon.

Rhagor o wybodaeth am feigrynau a fforamen hirgrwn amlwg

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi cyngor a chymorth pellach i chi. I gael manylion am holl ganllawiau NICE ar fforamen hirgrwn amlwg, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cyngorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechydd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'chau fforamen hirgrwn amlwg drwy'r croen ar gyfer meigryn rheolaidd'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn www.nice.org.uk/guidance/HTG242

Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Clinical Excellence

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8262-2

N2431 1P December 10

© National Institute for Health and Clinical Excellence. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.